

# CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 20ed IONAWR 2026.  
NEUADD GOFFA BODWROG.

## PRESENNOL:

Cyng. R G Parry (Is-Gadeirydd) Ms. N Dafydd, J E Lewis, D T Roberts, R R Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. Mrs. L Roberts (Cadeiryddes) J Evans. G Jones, W R Parry.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

Is-Gadeirydd. Cyng R G Parry oedd yn cadeirio.

## CAEL COFNODION 18ed TACHWEDD 2025 YN RHAI CYWIR:

Cynnig Cyng. R R Roberts eilo Cyng. Ms N Dafydd.

## MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Parcio ym Modffordd.

Gyda datblygiadau yn cymryd lle ym Modffordd, argymellwyd gan y Cynghorwyr y busai yn syniad i gael llinellau melyn dwbl yn gwaelod Bodffordd (Groeslon Llangwyllog) deg medr bob ffordd. Busai hyn yn rhoi lle i dramwy dynu i fewn, oherwydd fod yma le peryg. Cynnig Cyng. D T Roberts, eilio Cyng. J E Lewis.

Y Cyngor Sir heb ddod yn ol gyda dyddiadau i gyfarfod ar yn safle. Cyng Ms. N Dafydd i ymweld a Mr Alun Roberts i edrych a oes unrhyw symudiad.

Y Clerc i gysylltu ac Adran Cynllunio y Cyngor Sir ynghylch a datblygiad Haulfryn, Bodffordd.

Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth yn cadarnhau fod y Cynllun wedi bod yn llwyddiannus.

Cae Ysgol Bodffordd.

Cafwyd ymateb gan Adran Addysg y Cyngor Sir.

Yn cadarnhau fod y ffens wedi ei osod gan y Cyngor er mwyn sicrhau fod safle wedi'i ddiogelu'n llawn. Maent hefyd wedi gwneud ymholiadau gyda eiddo rhan perchnogaeth y tir. Ateb byr i'w na'r Cyngor Sir sydd yn meddiannu'r tir yn llawn at ddibenion addysg. Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i aros ar agor i ddefnydd y cyhoedd (Dim unrhyw eirfa yn y setliad i awgrymu bod y tir wedi'i rhoddi am ddim, nac unrhyw gymal yn creu ymddiriedolaeth neu orfod ar gyfer mynediad cyhoeddus.

Yn Cyngor yn amharod i dderbyn y canlyniad, ond nid oes tiro i symud ymlaen. Felly mae y Gymuned wedi colli y Ganolfan a Cae yr Ysgol i'r Cyngor Sir.

## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Dim.

## PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

2. Dim.

## GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

### 3. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.

Ymgynghoriad Ailgyrchu a Gwastraff - Sesiynau galw heibio.

Mae y Cyngor yn meddwl symud y casgliad gwastraff bin du o dair wythnos i bedair, gyda sesiynau ar hyd y Sir.

Teimlad y Cyngor ydyw fod ddim yn llawer o broblem i'r Henoed ond mae yn drychineb i deulu mawr oherwydd fod ei bin yn llawn yn awr. (Er bod bin mwy ar gael ond teilad na fuasai hyn yn ateb.) Y Cyngor yn gwrthwynebu'r syniad. Anfon gair i'r Cyngor Sir.

## GOHEBIAETH (ARALL)

### 4. Un Llais Cymru - Tracy Gilmartin.

Neges Blwyddyn Newydd oddiwrt h y Prif Weithredwr.

Mae yn son am Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2026. (Cael ei gynnal ar-lein 21ain Ionawr 2026.)

Cynhadlaeth Genedlaethol Flynyddol a Seremoni Wobrau 2026. (1af Gorffennaf ym Mhafiliwn Maldwyn ar Faes y Sioe Amaethyddol, Llanelwedd)

Cynhadledd Arfer Arloesol Flynyddol 2026. Wedi ei symud o Gorffennaf i 30ain Medi 2026 yn adeilad Hafod a Hendre ar Faes Sioe Amaethyddol, Llanelwedd.

Digwyddiadau ar y Cyd gyda Phartneriaeth allweddol. Dim bwriad i wneud newidiadau i drefniadau presennol. (Gan gynnwys yr SLCC, Cymorth Cynllunio Cymru ac ati)

"Y Farchnad" yn y Senedd. Bydd Un Llais Cymru yn parhau i archebu sesiynau arddangos rheolaidd yn y "Senedd" trwy'r flwyddyn.

Calendr ar-lein <https://www.onevoicewales.wales/calendar/>

Unrhyw gwestiynau ynghylch y Rhaglen. [gweinydd@unllaiscymru.cymru](mailto:gweinydd@unllaiscymru.cymru)

Y Cyngor wedi darllen y neges ac yn ei dderbyn yn ei gyd destyn.

### 5. Un Llais Cymru - Tracy Gilmartin.

Senedd Cymru Gorchymyn Anghymhwysu 2025. Wedi ei gymeradwyo gan y Senedd.

The Senedd Cymru (Disqualification) Order 2025.

Crynodeb o'r ymatebion ar gael. [Gorchymyn Senedd Cymru \(Anghymhwysu\) 2025 drafft / LLYW.CYMRU.](#)

Y Cyngor yn derbyn y gorchymyn heb ddim sylw pellach.

### 6. Rhys Pilley. Jones o Gymru Hanner Marathon Sir Fôn.

Trwy Bodffordd o'r Gorllewin ar y B5109. troi am Minffordd yn anelu at yr A5.

Y B5109 ar gau o 9.15 - 12.00 rhwng Trefor a groeslon Bodffordd.

Minffordd ar gau rhwng 9.30 a 12.30 o groeslon Bodffordd i'r A5.

Trafodwyd a dywedodd Cyng. R R Roberts fod gwasanaeth yn Eglwys, Llandrygarn ar yr amser yma.

Efallai buasai yn bosib ei ohirio tan ar ol y Marathon orffen. Nid oed unrhyw sylw arall. Derbyn.

### 7. Clercod a Cyngorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Cyng. J E Lewis yn ei ddarllen.

### 8. Cyng. Ms. N Dafydd.

Trigolion Bron Heulog angen cael bin sbwriel ychwanegol ym Modffordd. (Mr T Jones)

Mae y Cyngorydd wedi croesawu y syniad.

## RHODDION.

### 9. Cafwyd gair o ddiolch gan Ambwilans Awyr Cymru am ei rhodd o £100.

PLWYFOL.

10. Cafwyd neges gan Mr Dyfrig Owen.

Wedi gweld fod campervans yn dechrau aros dros nos yn y layby yr Hen Bost Tynlon.

Ac yr oedd yn cofio arwydd yno ar un adeg yn dweud (No Overnight Stay) Pryderu oedd y bydd Sipsiwn yn dechrau cymryd mantais ac aros yma. Ac mae y rhan hwn yn cael ei ddefnyddio gan draffig yn mynd am Llynfaes wrth ddod o lon Bodwrog a mynd o gwmpas y "roundabout" gwyrdd.

Mae y Clerc wedi cysylltu a'r Cyngor Sir maen't am rhoi arwyddbost i fynnu yno i rhoi diwedd ar hyn. R'oedd y Clerc a llawer o Hen Gymdogion yr Ardal yn cofio arwyddbost yno amser yn ol, ond am rhyw reswm cafodd ei dynnu. Nid oedd gan y Cyngor Sir unrhyw gofnod o hyn.

Hefyd mae wedi cael ei godi fod car yn parcio wrth y lle gwyrdd yn rheoliadd, (Lea Haven) ac yn ei gwenud yn anodd i'r traffig mawr dod rownd y gongl o lon Bodwrog. Mae y Cyngor Sir wedi dweud fydd rhaid mynd at yr Heddlu.

Ond yn y Cyngor noswaith o'r blaen dywedodd Cyng. Ms N Dafydd y buasai yn rhoi cnoc ar y drws ac egluro y sefyllfa.

Erbyn hyn mae y Trailer Wartheg (Ceffyl) wrth Bryn Tancwy, Tynlon wedi ei symud, oherwydd fod yn parcio mewn man, yn ei gwneud yn anodd i Gerbydau mawr basio yn enwedig yn y nos. Roedd y Clerc wedi cael mwy nag un cwyn gan ddefnyddwyr y lon.

11. Adroddiad y Cynghorydd Sirol Ms N Dafydd.

Derbyniwyd adroddiad a oedd yn gystylliedig a wardiau Cyngor Bodffordd. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad.

MATERION ARIANNOL.

12. Cyfrif Rhedegol. £27,370.26 (Preseb 3. £5,000.00)

Arian Mynwent Gymunedol Bodffordd £10,010.00 rhan o'r uchod)

TALIADAU:

13. Clerc £500.55.

Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. R R Roberts eilio Cyng. D T Roberts.

**D Owen** (Clerc)